# Cyflwyniad Deiseb Mynyddoedd Pawb (P-04-632)
# 6ed o Fai, 2015

## Sylwadau yn dilyn gohebiaeth rhwng cadeirydd y Pwyllgor deisebau â'r dirprwy weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

1. Rydym yn gofyn am ystyriaeth i amcanion y ddeiseb gan y Gweinidog **Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**, y gweinidog sydd a chyfrifoldeb dros **Addysg**, y gweinidog sydd a chyfrifoldeb dros **Gyfoeth Naturiol a Chynllunio** a Phrifweinidog Cymru sydd a chyfrifoldeb dros **yr iaith Gymraeg**. Er mwyn gwireddu'r amcanion isod sydd yn ein deiseb mae cyd-weithio rhwng yr holl adranau uchod yn angenrheidiol.

2. **Ysgogi parch a diddordeb yn yr iaith Gymraeg ac i sicrhau a chynyddu'r defnydd ohoni.** Mae angen dathlu cyfoeth ein enwau lleoedd trwy ddod a'n treftadaeth ddiwyllianol yn fyw i bawb. Trwy gyfrwng **y dechnoleg ddiweddara** sy'n datblygu'n ddyddiol gellir cyflwyno cyfoeth y Gymraeg i bawb trwy gyfrwng yr enwau sydd ar ein tirwedd. Gallai hyn fod yn atyniadol ar gyfer siaradwyr y Gymraeg, y sawl sydd â diddordeb yn yr iaith, a dysgwyr yr iaith. Mae cyfle yma hefyd i fynd gam ymhellach a chyflwyno'r **diwylliant Cymraeg cyfoes** i gynulleidfa eang.

2. **Cynyddu'r ymdeimlad o hunaniaeth ymysg cymunedau lleol drwy rannu cyfoeth ein treftadaeth ddiwyllianol gydag eraill.** Mae angen i gyrff yn y sectorau statudol cyhoeddus a gwirfoddol warchod ac ymfalchio yn ein treftadaeth ddiwyllianol anweladwy yn ogystal â'r gweladwy, byddai hyn yn cyflwyno amrywiaeth ddiddorol ym mhersbectif amgylchedd pobl leol ac ymwelwyr.

3. **Ennyn diddordeb ac ymwybyddiaeth ymwelwyr o gyfoeth ein treftadaeth leol a thrwy hynny ddod a buddion addysgol ac economaidd i ardaloedd.**
   Dylai **addysg** mewn ysgolion sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i werthfawrogi cyfoeth enwau lleoedd Cymraeg fel rhan o'u treftadaeth, hynny trwy **addysgu** am hanes, daearyddiaeth, chwedloniaeth a defnydd tir hanesyddol ein gwlad.
   Credwn hefyd y dylai enwau lleoedd ynghyd a'r dreftadaeth a'r hanes sy'n gysylltiedig â nhw, fod yn rhan annatod o gyrsiau astudiaethau'r amgylchedd mewn **addysg** bellach ac **addysg** uwch, ac o gyrsiau gweithgareddau awyr agored sy'n cael eu rhedeg gan gyrff eraill. Yn yr un modd dylid gweithio gyda chanolfannau awyr agored er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o gyfoeth enwau lleoedd traddodiadol brodorol, ac er mwyn eu cefnogi i ddefnyddio enwau lleoedd Cymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Gofynnwn i'r Cynulliad Cenedlaethol bwysleisio pwysigrwydd hyn oll i'r gweinidigion priodol o fewn Llywodraeth Cymru, fel y gallant ddarbwyllo awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru,Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, ynghŷd a chyrff eraill yn y sectorau statudol, cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat, i gymryd y camau priodol a phellgyrhaeddol yma i ddiogelu a dathlu'n treftadaeth genedlaethol trwy gyfrwng enwau Cymraeg ein tirwedd.